| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mai 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**<br>**Y Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Catrin Roberts** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Polisi Cyflog Blynyddol** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi cyflog. Mae’n rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau awdurdod ei hun tuag at amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflog ei weithlu yn arbennig ei uwch staff (neu "brif swyddogion"), a’i weithwyr ar y cyflog isaf. Mae’n rhaid cymeradwyo Datganiadau Polisi Cyflog gan y Cyngor yn flynyddol a’u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am waith y Panel Tâl a sefydlwyd fel rhan o'r Adolygiad Polisi Cyflogau ar gyfer 2015/16 i adolygu cyflog Uwch Arweinwyr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Ceisio cymeradwyaeth i’r Datganiad Polisi Cyflogau ynghlwm sydd wedi cael ei ddrafftio yn unol â gofynion 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac sy'n cynnwys yr holl drefniadau cyflog presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys y Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf.

Gofyn am gymeradwyaeth i argymhellion y Panel Tâl ar Adolygu Cyflog Uwch Arweinwyr.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

a. Bod y Cyngor Llawn yn cytuno ar y newidiadau i'r Polisi Cyflog ar gyfer 2016/17 (copi yn Atodiad A)
b. Bod y Cyngor Llawn yn cytuno ar argymhellion y Panel Tâl ar Gyflog Uwch Arweinwyr sef:
    i. Bod y Cyngor yn cytuno ar drefn restrol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
    ii. Bod y Cyngor yn mabwysiadu Strwythur Tâl newydd gyda graddau cynyddol i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

## 4. Manylion yr Adroddiad

O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor ‘y pŵer i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol o’r math y mae’r Cyngor yn credu sy’n addas’. Mae’r datganiad Polisi Tâl hwn yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at dâl yn unol â gofynion a38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 sy’n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy’n manylu ar:

a) Bolisïau’r Cyngor tuag at bob agwedd ac elfen o dâl Prif Swyddogion
b) Eu dull o gyhoeddi a mynediad i wybodaeth sy’n ymwneud â phob agwedd o dâl Prif Swyddogion
c) Polisïau’r Cyngor tuag at dâl ei weithwyr sydd ar y cyflogau isaf (gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd a’r rhesymau drosto)
d) Y berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

Mae'r Polisi Cyflog wedi cael ei adolygu ar gyfer 2016/17 a gwnaed y newidiadau canlynol:

***Dyfarniadau Tâl Cenedlaethol***

Mae'r Polisi Cyflog eto i gael ei ddiweddaru yn unol â'r dyfarniadau tâl cenedlaethol na chytunwyd arnynt hyd yn hyn. Gan na chyrhaeddwyd unrhyw gytundeb yn genedlaethol, mae Cynghorau wedi cael eu cynghori fel mesur dros dro i gynyddu SCP 6 – 8 i £7.20 yr awr i sicrhau ein bod yn bodloni’r Cyflog Byw Cenedlaethol newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2016.

Wedi'i gynnwys ym mharagraff 4.3.2 o'r Polisi Cyflog mae manylion y cynigion ar gyfer NJC, JNC a Phrif Swyddogion ar gyfer 1 mis Ebrill 2016, pob un ohonynt eto i’w cadarnhau.

***Dyfarniad Tâl Prif Swyddogion***

Roedd diwygiadau diweddar Llywodraeth Cymru i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2014 yn cyflwyno gofyniad newydd:

“Bod yn rhaid i'r awdurdod perthnasol benderfynu ar y lefel, ac unrhyw newid yn lefel y tâl i'w dalu i brif swyddog"

Mae paragraff 5.2.1 o'r Polisi Cyflog bellach yn cynnwys y gofyniad bod angen i unrhyw gynnydd costau byw nawr gael ei argymell gan Banel Tâl Annibynnol Cymru.

Fodd bynnag, yn achos y Prif Swyddogion mae’r cynnydd o 1% sydd wedi cael ei gytuno ar gyfer 2016/17, wedi cael ei gynnwys yn y cynigion Strwythur Tāl newydd sydd i'w roi ar waith o 1 Ebrill, 2016 yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

***Panel Tâl Uwch Dim Arweinyddiaeth***

Ers yr adroddiad diwethaf mae Panel Tâl i Uwch Arweinwyr wedi cael ei sefydlu i wneud yr argymhellion canlynol i'r Cyngor Llawn:-

- Argymhellion ar faterion tâl a dyfarniad uwch swyddogion i'r Cyngor, gan sicrhau cysondeb, tryloywder a hygyrchedd.
- Argymhellion ynglŷn â rheolaeth a strwythur tâl a chydnabyddiaeth uwch swyddogion, a sail ar gyfer dilyniant cyflog.
- Penderfynu ar lefel tâl ac unrhyw gydnabyddiaeth o ran Tâl mewn Perthynas â Pherfformiad i'r Prif Weithredwr.

Roedd y panel yn wleidyddol gytbwys ac yn cynnwys yr aelodau canlynol:

Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Cadeirydd
Cynghorydd Stuart Davies
Cynghorydd Joan Butterfield
Cynghorydd Peter Evans
Cynghorydd Barry Mellor
Cynghorydd Huw Jones

Mae paragraffau 5.3.1 a 2 o'r polisi yn amlinellu gwaith y panel hyd yn hyn, gan gynnwys datblygu'r strwythur cyflog newydd, a rôl y panel yn mynd ymlaen o ran cynghori ac argymell unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyngor Llawn.

Mae Atodiad B i'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canlyniad yr Adolygiad Cyflog Arweinyddiaeth Uwch sydd wedi'i gynnal gan y Panel Tâl, yn cynnwys strwythurau'r sefydliad.

Mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i gyflogau Prif Swyddog yn gofyn i'r cynigion gael eu hanfon at y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o dan S143A o Deddf Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2011

Mewn perthynas i gyflog Prif Swyddog, mae rôl y Panel yn cael ei gyfyngu i cymryd golwg a gwneud argymhelliad. Er bod disgwyliad i'r awdurdod lleol roi sylw i'r argymhelliad, nid ydynt yn rheidrwydd i ddilyn. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Panel am ei ymateb i'r argymhelliad a wnaed gan y Panel. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod ymateb awdurdod yn anghyson ag argymhelliad Panel, gall yr awdurdod fod yn destun cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i ailystyried y cyflog.

Mae'r IRP yn argymell amrywiad i gynnig y Cyngor sef:

- Mae'r cyflog uchaf a delir ar hyn o bryd yn y tair raddfa arfaethedig (SLT3, yn uniongyrchol corfforaethol, SLT2 pennaeth gwasanaeth a SLT1 pennaeth gwasanaeth) ddylai fod y mwyafswm yn y raddfa honno.

- Gall y swyddogion sydd ar hyn o bryd, ar cyflogau yn is na'r uchaf yn cael ei godi i'r lefel honno drwy gyfres o cynyddrannau, dros gyfnod o dair mlynedd.

Dylai'r cynyddrannau gael eu strwythuro fel nad oedd swyddog yn derbyn cynyddiad o lai na £ 1,000.

- Yn amodol ar bwynt 2, mae gan y cyngor y disgresiwn i bennu isafswm ar gyfer y radd a'r camau cynyddol i gyrraedd yr uchafswm.

Fe gyfarfod Panel Tal y Cyngor ar 29ain Ebrill 2016 i ystyried yr argymhellion a wnaed. Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i argymhellion yr IRP a'u rhesymau dros yr argymhelliad, PENDERFYNWYD y Panel Tal:

(I) Ar ôl ystyriaeth ddyledus argymhellion y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, mae Panel Tal SLT yn ystyried bod yr hyn a gynigiwyd yn wreiddiol, yn dal i sefyll ac i fynd ag ef i'r Cyngor Llawn ar 10 Mai 2016 i'w cymeradwyo.

(II) Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Panel IRP i esbonio ar ba sail y mae'r penderfyniad wedi ei wneud iddynt.

Argymhelliad y Panel Tâl i'r Cyngor Llawn yw:

a. Bod y Cyngor yn cytuno ar drefn restrol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
b. Bod y Cyngor yn mabwysiadu Strwythur Tâl newydd gyda graddau cynyddol i Uwch Swyddogion

***Taliadau Terfynu Cyflogaeth***

Mae Llywodraeth Ganolog y DU yn cyflwyno cap ar £95,000 ar daliad ymadael sector cyhoeddus, yn effeithiol o 1 Hydref 2016 ar y cynharaf. Ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd hyn yn gweithio yng Nghymru, er bod arwyddion cynnar yn awgrymu y gellir ei gymhwyso ar ei ffurf bresennol i'r Sector Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Fel a phan fyddwn yn derbyn eglurhad, bydd yr holl bolisïau ar daliadau diswyddo yng Nghyngor Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol maes o law i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth. Mae cyfeiriad at y cap wedi ei wneud ym mharagraff 5.7.4 yn y Polisi Tâl ar gyfer 2016/17 a bydd yn cael ei ddiweddaru pan fydd rhagor o wybodaeth yn dod i law.

***Adennill Taliadau Ymadael yn dilyn Ailgyflogi***

Mae Llywodraeth Ganolog y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi adennill taliadau ymadael yn y sector cyhoeddus, yn effeithiol o 1 Mai 2016. Bydd hyn yn berthnasol i weithwyr sy'n dychwelyd i'r sector cyhoeddus neu'r is-sector o fewn 12 mis ar ôl gadael, sy'n ennill dros £80,000 y flwyddyn. Ar hyn o bryd nid yw’n glir sut y byddai hyn yn gweithio yng Nghymru, byddai’r holl bolisïau ar daliadau diswyddo yng Nghyngor Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol maes o law i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth.

Mae cyfeiriad at adennill y taliadau hyn wedi ei wneud ym mharagraff 9.2 yn y Polisi Tâl ar gyfer 2016/17 a bydd yn cael ei ddiweddaru pan fydd rhagor o wybodaeth yn dod i law.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cael polisi tâl teg a thryloyw yn cyfrannu tuag at fod â gweithlu brwdfrydig a fydd yn ei dro yn cyfrannu tuag at gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd sy'n deillio o'r Polisi Cyflog hwn.

Cynhaliwyd yr adolygiad cyflog ar y cyd ag adolygiad o'r strwythur Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd wedi arwain at gyfuno rolau'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phennaeth Addysg; dileu'r rôl Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden; a newidiadau i rôl Pennaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd sydd wedi newid y rôl o raddfa cyflog UDA 2 i raddfa cyflog UDA 1.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Amgaeir y ffurflenni Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Polisi Tâl ac Adolygiad Cyflog Uwch Swyddog. Nid oes unrhyw faterion yn codi o'r naill asesiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd â Phennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Adran 151 a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod holl ofynion a38 (1) y Ddeddf Lleoliaeth wedi eu hymgorffori.

Cafodd Panel Tâl â chydbwysedd gwleidyddol ei arwain ar yr Adolygiad Tâl Uwch.

Hysbyswyd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd am yr adolygiad Polisi Tâl a'r adolygiad Cyflog Uwch Swyddog a gynhaliwyd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ar hyn o bryd mae'r Adran Gyllid yn cynnal adolygiad o gyllidebau a gedwir ar gyfer swyddi Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ystyried cynilo a roddir i fyny yn ystod proses y gyllideb Rhyddid a Hyblygrwydd. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn parhau o fewn y cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd y Cyngor yn torri ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Lleoliaeth os nad yw'n mabwysiadu'r Polisi Tâl.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n cynnwys y pŵer i benodi swyddogion.

Mae paragraff 6 o Ran 2 o Atodlen 3 i Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniad i bennu lefel tâl, neu unrhyw newid i lefel tâl Prif Swyddog yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn.